# ADRODDIAD BLYNYDDOL

# CYNGOR CYMUNED LLANLLWCHAEARN

# 2022 / 23

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair gan Gadeirydd y Cyngor Cymuned | 3 |
| Rôl a Swyddogaethau'r Cyngor | 4 |
| Aelodaeth o'r Cyngor | 6 |
| Gwaith y Cyngor 2022 /2023 | 7 |
| Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol | 9 |
| Mynychu'r cyngor / Cysylltwch â ni | 10 |

# 1

# Rhagair gan Gadeirydd y Cyngor Cymuned

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol ar gyfer Cyngor Cymuned Llanllwchaearn. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o waith y Cyngor yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

Yn gyffredinol, ychydig iawn o rym sydd gan gyngor cymuned. Fodd bynnag mae modd i gyngor cymuned wneud cyfraniad arwyddocaol i fywyd yr ardal drwy bum ffordd benodol:

- cyflwyno sylwadau i ymgynghoriadau cyhoeddus ar draws feysydd polisi Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus a'r Cyngor Sir,
- cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio lleol,
- bod yn llais i gonsyrn trigolion lleol mewn materion cyhoeddus,
- cyfrannu nawdd ariannol at goffrau mudiadau a sefydliadau lleol, a
- datblygu ei brosiectau penodol ei hunan a allai gyfrannu at wella ansawdd bywyd y trigolion lleol.

O'r pum agwedd yma, y ddau olaf sydd â'r potensial mwyaf i wella ansawdd bywydau trigolion lleol. Mae Cyngor Cymuned Llanllwchaearn yn falch o'i record yn ceisio cyflawni hynny.

Mae'n fraint cael bod yn gynghorydd cymuned a chwarae rhan arweiniol ym mywyd yr ardal. Rwyf wedi rhannu o'r fraint honno ers dros chwarter canrif bellach. Anrhydedd bu cadeirio'r Cyngor o dro i dro yn ystod y cyfnod hynny. Mae polisïau Llywodraeth ynghylch cynghorau tref a chymuned yn newid yn barhaus ac mae'r gofynion rheolaethol wedi cynyddu'n enbyd dros y degawdau diwethaf. Yn anffodus dydy'r newidiadau hynny ddim wastad yn hwylusi gyngor bach mewn ardal wledig. Bydd heriau yn ein wynebu i'r cyfeiriad hynny i'r dyfodol eto mae'n siŵr. Rhaid bod yn effro.

Pleser yw cael cydweithio gyda chriw brwd a chytûn o gynghorwyr. Mae'n diolch i'r Clerc, Sioned Davies, am ei gofal a'i harweiniad yn fawr. Hyderwn y gallwn barhau i wasanaethu Llanllwchaearn am flynyddoedd i ddod.

Yn gywir

**Cynghorydd Gareth Ioan**

**Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanllwchaearn 2022 / 2023**

# 2

# Rôl a Swyddogaeth y Cyngor

## Rôl y Cyngor

### Gwaith a wneir gan y Cyngor Cymuned

Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn datgan bod pob rhan o Gymru mewn ‘cymuned’ weinyddol. Mae gan bob cymuned weinyddol gyngor lleol – cyngor cymuned neu gyngor tref.[1]

Y Cyngor Cymuned yw'r haen isaf o lywodraeth leol ac mae agosaf at y cyhoedd o ran diwallu anghenion lleol. Mae gan y Cyngor nifer o hawliau a dyletswyddau statudol.

### Beth yw strwythur y Cyngor?

Darperir rhestr o'ch cynghorwyr lleol ar y dudalen nesaf yr adroddiad. Mae gan Gyngor Cymuned Llanllwchaearn 7 Cynghorydd. Nid ydynt yn cynrychioli unrhyw blaid wleidyddol benodol. Cânt eu hethol pob 4 blynedd.

Cyflogir Clerc/Swyddog Ariannol rhan-amser i ymdrin â'r holl drefniadau ar gyfer cyfarfodydd a pharatoi agenda i ymdrin â'r cofnodion a materion ariannol a gweinyddol sy'n gysylltiedig â gweithredu gwaith y Cyngor. Cyflogir contractwyr hefyd i wneud gwaith arbenigol megis atgyweirio a chynnal a chadw, e.e. torri glaswellt.

Mae'r Cyngor Cymuned yn gwneud sylwadau ar geisiadau cynllunio o fewn y gymuned cyn i Gyngor Sir Ceredigion benderfynu arnynt. Maent yn darparu cyllid ar gyfer digwyddiadau, clybiau a gwasanaethau yn y gymuned. Mae'r Cyngor yn penodi aelodau i eistedd ar gyrff Llywodraethu Ysgol Bro Siôn Cwilt.

### Sut mae'r Cyngor yn gweithio?

Bydd unrhyw waith a wneir gan y Cyngor yn cael ei weithredu yn dilyn penderfyniadau a wneir mewn cyfarfodydd agored. Telir am unrhyw waith gydag

[1] Yn Lloegr, mae'r term "Cynghorau Plwyf" yn dal i gael ei ddefnyddio ond yng Nghymru, fodd bynnag, gelwir y term cyfreithiol a chyfansoddiadol ar gyfer yr unedau hyn o weinyddiaeth llywodraeth leol yn ‘Gynghorau Cymuned’.

arian cyhoeddus y mae'r Cyngor yn ei dderbyn drwy godi *praesept* sy'n rhan o'r Dreth Gyngor a bennir gan Gyngor Sir Ceredigion.

### Beth yw *praesept* y Cyngor?

Yn 2022/23 pennir *praesept* y Cyngor ar £10,800.00 Codir y *praesept* i ariannu cyfrifoldebau'r Cyngor Cymuned gan gynnwys torri glaswellt a chynnal a chadw diffibriliwr a chyfrannu tuag at sefydliadau lleol.

### A all y cyhoedd fynychu'r cyfarfodydd?

Ar bob cyfrif. Mae croeso i chi fynychu ein cyfarfodydd – a byddem yn annog hynny. Bydd modd i chi arsylwi a gwrando ar y drafodaeth. Nid oes gan aelodau'r cyhoedd hawl i gymryd rhan yn nhrafodaethau'r Cyngor na rhoi eu barn yn ystod y cyfarfod. Fodd bynnag, efallai y bydd amgylchiadau eithriadol lle caniateir i'r Cadeirydd alw am gyfraniad gan y cyhoedd ac iddynt wneud datganiad.

Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor yn fisol, ac eithrio ym mis Awst, ac fe'u cynhelir fel arfer ar yr ail nos Iau o'r mis. Cynhelir y cyfarfodydd yn Neuadd Caerwedros, nad sydd o fewn y gymuned, ond mae hynny'n caniatáu i'r cyfarfodydd gael eu cynnal yn hybrid – yn y Neuadd ac ar *Zoom*.

### Cyfarfod Blynyddol

Mae'r cyfarfod blynyddol yn rhwymedigaeth gyfreithiol fel y nodwyd yn Neddf Llywodraeth Leol 1972. Rhaid cynnal y cyfarfodydd blynyddol ym mis Mai. Y Cyngor sy'n penderfynu ar y dyddiad. Yr eitem gyntaf ar yr agenda yw ethol Cadeirydd y Cyngor Cymuned am y deuddeg mis nesaf.

### Etholiad

I'w ethol yn Gynghorydd rhaid i aelod fod yn gymwysedig o dan y gyfraith, bod yn Ddinesydd Prydeinig a rhaid iddo fod wedi cyrraedd 21 oed.

Rhaid i'r ymgeisydd hefyd fod yn:

- etholwr llywodraeth leol,
- wedi meddu ar eiddo mewn unrhyw darn o dir neu fangre arall yn yr ardal, yn ystod y deuddeg mis cyfan cyn y diwrnod hwnnw, fel perchennog neu denant,
- bod y prif, neu'r unig le gwaith, yn ystod deuddeg mis cyn yr etholiad, wedi bod yn yr ardal honno, neu
- yn byw yn ystod y deuddeg mis cyfan yn yr ardal honno, neu o fewn tair milltir i'r ardal honno.

# 3

# Aelodaeth o’r Cyngor 2022/2023

Mae gan Gyngor Cymuned Llanllwchaearn 7 Cynghorydd:

| **Aelod o’r Cyngor** | **Tymor y Swydd** | **Tymor fel Cadeirydd neu Is-gadeirydd** |
|---|---|---|
| Cynghorydd Gareth Ioan | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | Cadeirydd Mai 2022 - Mai 2023 |
| Cynghorydd Euros Lloyd | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | Is-gadeirydd Mai 2022 - Mai 2023 |
| Cynghorydd Silyn Roberts | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | |
| Cynghorydd Meleri Richards | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | |
| Cynghorydd Gill Hearne | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | |
| Cynghorydd Mel Jones | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | |
| Cynghorydd Matthew Vaux | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 | |

**Pryd mae Cyngor Cymuned Llanllwchaearn yn cyfarfod?**

Mae Cyngor Cymuned Llanllwchaearn yn cyfarfod ar yr ail nos Iau y mis (ac eithrio mis Awst) yn Neuadd Caerwedros ac yn rhithiol ar-lein drwy *Zoom*.

# 4

# Cipolwg o waith y Cyngor yn ystod 2022/2023

Yn ystod y flwyddyn weinyddol 2022/2023 cyflawnodd Cyngor Cymuned Llanllwchaearn y canlynol:

**Ymgynghoriad ymchwiliad i ail-gartrefi**

Cyflwynodd y Cyngor Cymuned sylwadau manwl i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch ail-gartrefi.

**Arolwg Tai Lleol**

Cydweithiwyd â chynghorau cymuned eraill yr ardal i gynnal arolwg o anghenion tai lleol.

**Cynllun Cerdded o fewn y gymuned**

Mae'r Cyngor Cymuned wedi creu is-bwyllgor er mwyn mynd ati i greu taflen wybodaeth a fydd yn hyrwyddo teithiau cerdded ar hyd llwybrau cyhoeddus o fewn ein hardal. Y bwriad yw annog trigolion lleol a thwristiaid i werthfawrogi'n treftadaeth naturiol.

**Rheoli Cyflymder Traffig**

Mae'r Cyngor Cymuned yn parhau i ceisio cael gwelliannau ar gyfer rheoli cyflymder trwy Pentre'r Bryn, Cross Inn a phentrefi eraill yr ardal.

**Ymestyn Terfyn Cyflymder lawr lôn Penrhiwgaled**

Mae'r Cyngor Cymuned wedi gwneud cais i'r Cyngor Sir i ystyried ymestyn terfyn cyflymder lawr Lôn Penrhiwgaled.

**Palmant yn Mhentre'r Bryn**

Mae'r Cyngor mewn trafodaethau gyda Chyngor Sir Ceredigion ynghylch gosod palmant ym Mhentre'r Bryn.

**Diffibriliwr Maen-y-groes**

Mae’r Cyngor Cymuned wedi prynu bocs dur newydd er mwyn cadw’r peiriant diffibriliwr ym Maen-y-groes yn ddiogel ac yn sych.

**Parc Chwarae Cross Inn**

Gwnaed cais sylweddol i’r Loteri Genedlaethol i adnewyddu’r parc chwarae yn Cross Inn.

**Rhaglen Hyfforddiant**

Rhoddwyd cynllun hyfforddiant newydd ar waith yn ystod 2022/23 i sicrhau bod yr holl gynghorwyr yn gwbl ymwybodol o brosesau a chyfrifoldebau’r aelodau a’r Cyngor fel cyfanrwydd.

**Polisïau’r Cyngor Cymuned**

Adolygwyd a mabwysiadwyd nifer o bolisïau newydd yn ystod y flwyddyn.

**Ceisiadau Cynllunio**

Caiff ceisiadau cynllunio lleol eu hystyried ym mhob cyfarfod ac anfonir sylwadau at y Adran Gynllunio Cyngor Sir Ceredigion yn unol â hynny.

**Cynyddu cyhoeddusrwydd y Cyngor**

Mae’r Cyngor Cymuned yn parhau i gynyddu cyhoeddusrwydd ynghylch gwaith y Cyngor trwy ddatblygu gwybodaeth ar y wefan a’r dudalen *Facebook*.

**Rhoddion Ariannol (Adran 137)**

Dosbarthwyd nawdd ariannol gan y Cyngor i’r sefydliadau canlynol:

- Clwb Bowlio Llanllwchaearn
- Neuadd Goffa Caerwedros
- Sioe Caerwedros
- C.Ff.I. Caerwedros
- Ysgol Bro Siôn Cwilt
- W.I. Cross Inn
- Merched y Wawr y Bryniau
- Bois y Gilfach
- C.Ff.I. Ceredigion
- HAVHAV
- Galar Cruse
- Pwll Nofio Aberaeron

# 5

# Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

Y meysydd blaenoriaeth y mae Cyngor Cymuned Llanllwchaearn yn bwriadu eu hystyried yn ystod 2023/24 yw:

- Cyfrannu i’r ymgynghoriad ar adolygu ffiniau cymunedau gweinyddol, gan sicrhau bod Llanllwchaearn yn parhau’n gymuned weinyddol dan unrhyw drefn newydd.
- Cyfrannu i’r ymgynghoriad ar Strategaeth Tai Cyngor Sir Ceredigion.
- Datblygu tudalen ‘Prosiectau’ ar wefan y Cyngor Cymuned.
- Gwella maes chwarae Bro Hafan, Cross Inn.
- Cyhoeddi taflen o lwybrau cerdded lleol.
- Parhau i geisio gwella diogelwch yn ffyrdd o fewn yr ardal.
- Parhau i ddarparu grantiau i fudiadau a sefydliadau lleol.
- Parhau i gydweithio â chynghorau cyffiniol ar faterion cyffredin.

# 6

# Mynychu Cyngor Cymuned Llanllwchaearn

# Cysylltwch â ni

**Mynychu cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanllwchaearn**

Mae'r Cyngor yn awyddus i weld aelodau'r cyhoedd yn mynychu Cyngor Cymuned Llanllwchaearn.

Ac eithrio eitemau cyfrinachol, cedwir pob busnes yn gyhoeddus.

Cyhoeddir yr holl bapurau agenda cyhoeddus ar-lein 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod

**Cysylltwch â ni**

Gallwch gysylltu â Cyngor drwy gyfrwng y Clerc:

Mrs Sioned Davies, (Clerc)
Fronhaul,
13 Bro Gido,
Gilfachreda,
Ceredigion.
SA45 9SR.

Gwefan:

Hafan (llanllwchaearn.org)

Gwybodaeth ynghylch cynghorwyr:

Cynghorwyr (llanllwchaearn.org)

# LLANLLWCHAEARN COMMUNITY COUNCIL

# ANNUAL REPORT

# 2022 / 23

# Contents


Foreword by the Chair of the Community Council 13

Role and Functions of the Council 14

Council Membership 16

Council Work 2022 /2023 17

Future priorities 19

Attending the Council / Contacting us 20

1

# Foreword by the Chair of the Community Council

I am delighted to present the annual report for Llanllwchaearn Community Council. The report provides an overview of the Council's work during the period 1 April 2022 to 31 March 2023.

In general, a community council has very little power. However, a community council can make a significant contribution to the life of the area in five distinct ways:

- making representations to public consultations across the policy areas of Welsh Government, public bodies and the County Council,
- comment on local planning applications,
- be a voice for the concerns of local residents in public affairs,
- contribute financial aid to local organisations and institutions, and
- by developing its own projects that contribute to improving the quality of life of local residents.

Of these five aspects, the last two have the greatest potential to contribute positively to our local community. Llanllwchaearn Community Council is proud of its record in trying to achieve that.

It is a privilege to be a community councillor and to play a leading role in the life of the neighbourhood. It’s been my privilege for over a quarter of a century. I’ve also been honoured to have chaired the Council from time to time during that period.

Government policies regarding town and community councils are constantly changing and regulatory requirements have increased considerably in recent decades. Unfortunately, those changes don't always feel pertinent to a small council in a rural area. There will no doubt be challenges in that direction again in the future. We have to be alert.

It is a pleasure to work with an enthusiastic and harmonious group of councillors. We thank the Clerk, Sioned Davies, for her diligence and guidance. We trust that we can continue to serve Llanllwchaearn for years to come.

Yours sincerely

**Councillor Gareth Ioan**

**Chair of Llanllwchaearn Community Council 2022 / 2023**

# 2

# Role and Function of the Council

## The Role of the Council

### Work carried out by the Community Council

The Local Government Act 1972 states that all parts of Wales are placed in an administrative 'community'. Each administrative community has a local council – a community council or a town council.[2]

The Community Council is the lowest tier of local government and is closest to the public in meeting local needs. The Council has a number of statutory rights and duties.

### What is the structure of the Council?

A list of your local councillors is provided on the next page of the report. Llanllwchaearn Community Council has 7 Councillors. They do not represent any political party in particular. They are elected every 4 years.

A part-time Financial Clerk/Officer is employed to handle all arrangements for meetings, preparing agendas and minutes, and dealing with financial and administrative matters related to the implementation of the Council's work. Contractors are also employed to carry out specialist work such as repairs and maintenance, e.g., grass cutting.

The Community Council comments on planning applications within the community before they're decided upon by Ceredigion County Council. The Community Council provides funding for events, clubs and services within the community. The Council also appoints a member to sit on the governing body of Ysgol Bro Siôn Cwilt.

### How does the Council work?

Any work undertaken by the Council will be implemented following decisions made in open meetings. All actions are paid for with public money received by the Council by means of a *precept* which is raised as part of the Council Tax set by Ceredigion County Council.

[2]In England, the term "Parish Councils" is still used but in Wales, however, the legal and constitutional term for these units of local government administration is known as 'Community Councils'.

## What is the Council *precept*?

In 2022/23 the Council's *precept* was set at £10,800.00 The *precept* is the administrative mechanism by which the Council's funds are raised. The Council's responsibilities include activities such as grass cutting, defibrillator maintenance and grant giving to local organisations and institutions.

## Can the public attend meetings?

By all means. You are welcome to attend our meetings – which we would encourage. You will be able to observe and listen to the discussion. However, members of the public have no right to participate in Council discussions or give their views during the meeting. However, there may be exceptional circumstances in which the Chair is permitted to call for input by the public and for individuals to make a statement.

Council meetings are held monthly, excepting August, and are usually held on the second Thursday evening of the month. The meetings are held at Caerwedros Hall, which is not within the community, but the venue allows meetings to be held as hybrid meetings – i.e., with attendees both in the hall and on *Zoom*.

## AGM

The annual meeting is a legal obligation as set out in the Local Government Act 1972. Annual meetings must be held in May. The date is decided on by the Council. The first item on the agenda is to elect the Chair of the Community Council for the following twelve months.

## Election

To be elected as a Councillor a member must be qualified under the law, be a British Citizen and must have attained the age of 21.

The applicant must also be:

- a registered local government voter,
- an occupier, during the whole twelve months preceding that day, as owner or tenant of any other land or premises in the same locality,
- the principal, or sole place of work, during twelve months before the election, has been in that area, or
- lived during the whole twelve months in that area, or within three miles of that area.

# 3

# Council Membership 2022/2023

Llanllwchaearn Community Council has 7 Councillors:

| Council Member | Period of Office | Term as Chair or Vice-chair |
|---|---|---|
| Cynghorydd Gareth Ioan | Local Government Elections May 2022 | Chair May 2022 - May 2023 |
| Cynghorydd Euros Lloyd | Local Government Elections May 2022 | Vice-chair May 2022 - May 2023 |
| Cynghorydd Silyn Roberts | Local Government Elections May 2022 | |
| Cynghorydd Meleri Richards | Local Government Elections May 2022 | |
| Cynghorydd Gill Hearne | Local Government Elections May 2022 | |
| Cynghorydd Mel Jones | Local Government Elections May 2022 | |
| Cynghorydd Matthew Vaux | Local Government Elections May 2022 | |

**When does Llanllwchaearn Community Council meet?**

Llanllwchaearn Community Council meets on the second Thursday of the month (excluding August) at Caerwedros Hall and virtually online via *Zoom*.

# 4

# A snapshot of the Council's work during 2022/2023

During the administrative year 2022/2023 Llanllwchaearn Community Council achieved the following:

**Consultation on Second Homes**

The Community Council submitted detailed comments to the Welsh Government's consultation on second homes.

**Local Housing Survey**

We worked with other community councils in the area to survey local housing needs.

**Public paths in Llanllwchaearn**

The Community Council has created a sub-committee to produce a pamphlet to promote a selected number of walks along public footpaths within the area. The aim is to encourage local residents and tourists to appreciate our natural heritage.

**Traffic Calming**

The Community Council continues to seek improvements for traffic calming in Pentre'r Bryn, Cross Inn and other villages in the area.

**Speed Limit extended down Penrhiwgaled lane**

The Community Council has applied to the County Council for the authority to consider extending the speed limit down Lôn Penrhiwgaled.

**Pavement at Pentre'r Bryn**

The Council is in discussions with Ceredigion County Council about installing a pavement at Pentre'r Bryn.

**Maen-y-groes defibrillator**

The Community Council has purchased a new steel box to shelter the defibrillator in Maen-y-groes from the effects of the weather.

**Cross Inn Play Area**

A significant application has been made to the National Lottery to renovate the play area at Cross Inn.

**Training Programme**

A new training plan was put in place during 2022/23 to ensure that all councillors are fully aware of the Council's duties and processes and their responsibilities as Councillors.

**Community Council Policies**

A number policies were reviewed and adopted during the year.

**Planning Applications**

Local planning applications are considered at each meeting and comments presented to Ceredigion County Council Planning Department accordingly.

**Increasing the Council's public profile**

The Community Council continued to publicise its work by developing relevant information on the website and on its *Facebook* page.

**Financial Donations (Section 137)**

Financial sponsorship was distributed by the Council to the following organisations:

- Llanllwchaearn Bowls Club
- Caerwedros Memorial Hall
- Caerwedros Show
- Caerwedros YFC
- Ysgol Bro Siôn Cwilt
- Cross Inn W. I.
- Merched y Wawr y Bryniau
- Bois y Gilfach
- Ceredigion YFC
- HAVHAV
- Cruse Grief Counselling
- Aberaeron Swimming Pool

# 5

## Future priorities

The priority areas for consideration by Llanllwchaearn Community Council during 2023/24 will be:

1. Contributing to the public consultation on reviewing administrative community boundaries, ensuring that Llanllwchaearn remains an administrative community under any new scheme.

2. Contributing to the public consultation on Ceredigion County Council's Housing Strategy.

3. Develop a 'Projects' page on the Community Council’s website.

4. Upgrade the Cross Inn Play Area.

5. Publish a leaflet of local walks and rambles.

6. Continue to try to improve road safety within the area.

7. Continue to provide grants to local organisations and organisations.

8. Continue to collaborate with contiguous councils on issues of common concern.

# 6

# Attending Llanllwchaearn Community Council

# Contacting Us

---

**Attending Llanllwchaearn Community Council meetings**

---

Councilors always welcome members of the public who wish to attend meetings of Llanllwchaearn Community Council.

Excepting certain confidential items, all business items discussed by the council are public.

All agenda papers will be published online three working days prior to the meeting.

**Contacting us**

You can contact the Council through the Clerk:

Mrs Sioned Davies, (Clerc)
Fronhaul,
13 Bro Gido,
Gilfachreda,
Ceredigion.
SA45 9SR.

Website:

[Home (llanllwchaearn.org)]

Information about Councillors:

[Councillors (llanllwchaearn.org)]